

Beth yw'r MHRA?

Corff llywodraeth y DU yw'r **Asiantaeth Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA)**. Ei brif nod yw gwarchod iechyd y cyhoedd. Mae'n gwneud hyn drwy wneud yn siŵr bod meddyginiaethau a dyfeisiau meddygol yn gweithio'n iawn ac yn dderbyniol o ddiogel.

Pan ddeuir o hyd i unrhyw broblem bosibl bydd yr MHRA yn gweithredu ar unwaith i warchod y cyhoedd a lleihau risg.

Am ragor o wybodaeth am yr MHRA:

ewch i www.mhra.gov.uk

neu ffoniwch **020 3080 6000**

© Hawlfraint y Goron

Sgil effaith eich meddyginiaeth?

Os oes gennych symptom y credwch y gallai fod yn sgil effaith eich meddyginiaeth...

- 1 Gwiriwch y daflen wybodaeth i gleifion** a ddarparwyd gyda'r feddyginiaeth. Mae hon yn rhestru'r holl sgil effeithiau y gwyddir amdanynt ac yn eich cynghori ynglŷn â beth i'w wneud.
- 2 Gofynnwch i'ch meddyg neu fferylllydd** am gyngor.
- 3 Gallwch riportio'r sgil effaith gan ddefnyddio'r Cerdyn Melyn**, yn enwedig os na sonnir amdano yn y daflen wybodaeth i gleifion.

Ewch i weld eich meddyg os oes gennych unrhyw symptom sy'n eich poeni.



Sut i riportio sgil effaith a amheuir

Mae tair ffordd i wneud adroddiad Cerdyn Melyn:

- **defnyddio'r ffurflen Cerdyn Melyn** ar-lein yn www.mhra.gov.uk/yellowcard Dyma'r ffordd hawsaf i wneud adroddiad, os oes gennych fynediad i'r Rhyngrwyd.
- **gofyn i'ch fferylllydd am ffurflen Cerdyn Melyn** y gallwch ei llenwi a'i phostio
- **ffonio'r llinell frys Cerdyn Melyn** ar **0808 100 3352**

Gallwch riportio sgil effaith a amheuir gan unrhyw feddyginiaeth neu feddyginiaeth lysieuol, boed hon wedi ei ragnodi gan eich meddyg neu wedi ei brynu heb bresgripsiwn.

Beth sy'n digwydd i adroddiadau Cerdyn Melyn?

Mae'r MHRA (*gweler trosodd*) yn casglu adroddiadau Cerdyn Melyn gan bobl sy'n cymryd meddyginiaethau, yn ogystal â chan weithwyr gofal iechyd proffesiynol megis meddygon, fferyllwyr a nyrsys.

Defnyddir yr adroddiadau hyn i ganfod sgil effeithiau a phroblemau eraill o bosib na wyddid amdanynt cyn hyn. Os deuir o hyd i sgil effaith newydd bydd yr MHRA yn adolygu'r ffordd y gall y feddyginiaeth gael ei defnyddio, a'r rhybuddion a roddir i bobl sy'n ei chymryd neu'n ei defnyddio.

Cedwir y manylion personol hyn a ddarparwch yn ddiogel ac yn gyfrinachol. Ni chaiff unrhyw fanylion a allai ddatgelu pwy ydych eu trosglwyddo i eraill heb eich caniatâd